

ISA Uniongyrchol

Blwyddyn dreth 2017/18

Llyfryn addas i'w argraffu

Di-dreth. Didrafferth.

Cynilwch hyd at £20,000 heb dalu ceiniog o dreth ar y llog



Mae'r ddogfen hon wedi cael ei lawrlwytho o nsandi.com, ac roedd yn gywir ym mis Ionawr 2018.

Mae'n addas i'w hargraffu gartref, a gellir ei defnyddio gyda meddalwedd darllen sgrîn.

I gael fersiynau eraill o'r llyfryn hwn, gweler [tudalen 18](#).

Cynnwys

2 [Croeso i gynilion di-dreth](#)

3 [Esboniad o reolau ISA](#)

Dysgwch sut mae ISA yn gweithio a sut gallwch ddefnyddio'ch lwfans di-dreth o £20,000

4 [Beth yw ystyr di-dreth?](#)

Dysgwch am statws di-dreth eich ISA

5 [Gwybodaeth am ISA Uniongyrchol NS&I](#)

Dysgwch sut i reoli'ch ISA Uniongyrchol NS&I

6 [Yn barod i wneud cais?](#)

Sut i wneud cais ar-lein a thros y ffôn

8 [Telerau ac amodau](#)

Darllenwch y rhain cyn gwneud cais

18 [Bob amser yma i helpu](#)

Sut i gysylltu ag NS&I

Mae'n hawdd

Buddsoddi eich arian mewn ISA arian parod yw un o'r ffyrdd symlaf o gynilo yn ddi-dreth.

Mae'n caniatáu i chi gynilo hyd at £20,000 ym mlwyddyn dreth 2017/18.

Ni fyddwch yn talu unrhyw Dreth Incwm y DU ar y llog a enillwch ac nid oes angen i chi ei ddatgan ar eich ffurflen dreth.

Gydag ISA Uniongyrchol gan NS&I, bydd gennych ffordd syml a diogel o gynilo, a gallwch reoli'ch cyfrif ar-lein a thros y ffôn yn gyfleus.

Y penawdau

- **Lwfans eleni**

Y lwfans yr ISA ar gyfer 2017/2018 yw £20,000.

- **Rheoli'ch lwfans**

Nid yw ein ISA Uniongyrchol yn ISA hyblyg. Mae hyn yn golygu y bydd pob un o'ch taliadau i mewn yn ystod y flwyddyn dreth yn cyfrif tuag at eich lwfans, p'un a fyddwch chi'n tynnu arian allan o gwbl ai peidio.

- **Etifeddu lwfans**

Gallwch etifeddu lwfans ISA ychwanegol os bydd eich priod neu bartner sifil yn marw, hyd at werth ei ISA ar ddyddiad ei farwolaeth. Cysylltwch â ni os hoffech ragor o fanylion am hyn.



A oes gennych ISA eisoes?

Os ydych eisoes wedi buddsoddi mewn ISA arian parod gyda darparwr arall er 6 Ebrill 2017, ni allwch agor ISA Uniongyrchol NS&I yn ystod y flwyddyn dreth hon. Ond gallwch ychwanegu arian at eich ISA presennol.

- Darllenwch ragor ar **dudalen 4**

Esboniad o Reolau ISA

Yma, rydym yn esbonio sut mae'r ISA yn gweithio yn gyffredinol er mwyn rhoi darlun llawn i chi cyn i chi fuddsoddi.

Mae pedwar prif fath o ISA:

- **ISA arian parod** dyma gyfrif cynilo syml lle mae eich taliadau i mewn yn ddiogel.
- **ISA stociau a chyfranddaliadau** dyma fuddsoddiad lle y gall gwerth eich arian godi neu ostwng.
- **ISA cyllid arloesi** mae'n caniatáu i chi fuddsoddi mewn benthyciadau rhwng cymheiriaid.
- **ISA gydol oes** mae'n caniatáu i chi gynilo ar gyfer eich cartref cyntaf neu eich ymddeoliad a chael bonws o 25% gan y llywodraeth ar y swm rydych chi'n ei gynilo.

Rydym ni'n cynnig ISA arian parod yn unig.

Pwy all fuddsoddi?

- **ISA Arian Parod**
Unrhyw un sy'n 16 oed neu'n hyn.
- **ISA stociau a chyfranddaliadau**
Unrhyw un sy'n 18 oed neu'n hyn.
- **ISA cyllid arloesi**
Unrhyw un sy'n 18 oed ac yn hyn.
- **ISA gydol oes**
Unrhyw un sydd rhwng 18 a 39 oed.
- **Preswylwyr y DU**
O dan reolau'r cynllun, rhaid i chi fod yn preswyllo yn y DU at ddibenion treth i agor ISA.

Nid yw'r DU yn cynnwys Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw.

- **Cyfrifon lwfansau wedi'u hetifeddu**
Mae'r rheolau ar gyfer y rhain yn wahanol i reolau arferol ISA. Gweler y telerau ac amodau neu cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion.

Faint gallaf i ei fuddsoddi?

- **Cyfanswm y buddsoddiad**
Gallwch fuddsoddi cyfanswm o hyd at £20,000 ym mlwyddyn dreth 2017/18.
- **Rhowch y cyfan mewn ISA arian parod**
Buddsoddwch yr £20,000 cyfan mewn ISA arian parod (fel ISA Uniongyrchol NS&I).
- **Rhowch y cyfan mewn ISA stociau a chyfranddaliadau**
Buddsoddwch yr £20,000 cyfan mewn ISA stociau a chyfranddaliadau (nid yw NS&I yn cynnig un o'r rhain).
- **Rhowch y cyfan mewn ISA cyllid arloesi**
Buddsoddwch yr £20,000 cyfan mewn ISA cyllid arloesi (nid yw NS&I yn cynnig un o'r rhain).
- **Neu rhannwch eich buddsoddiad**
Gallwch rannu'ch uchafswm ar gyfer ISA sut bynnag y dymunwch rhwng ISA arian parod, ISA stociau a chyfranddaliadau, ISA cyllid arloesi ac ISA gydol oes, ar yr amod nad ydych chi'n buddsoddi mwy na'r uchafswm o £4,000 mewn ISA gydol oes.

Gallwch fuddsoddi mewn un yn unig o bob math o ISA yn ystod pob blwyddyn dreth.

A ydych chi eisoes wedi buddsoddi mewn ISA?

Os ydych chi wedi buddsoddi mewn unrhyw ISA arian parod er 6 Ebrill 2017, ni allwch agor ISA arall gydag unrhyw ddarparwr arall tan 6 Ebrill 2018.

Wrth gwrs, gallwch ychwanegu at yr ISA rydych chi eisoes wedi'i agor, hyd at uchafswm y lwfans ar gyfer y flwyddyn dreth hon, sef £20,000.

A ydych chi wedi buddsoddi mewn ISA stociau a chyfranddaliadau a/neu ISA cyllid arloesi a/neu ISA gydol oes yn unig yn y flwyddyn dreth hon?

Mae'n bosibl i chi o hyd agor un ISA arian parod yn y flwyddyn dreth hon. Ond ni all cyfanswm eich buddsoddiad ym mhob un o'r pedwar math o ISA fod yn fwy nag £20,000 ac ni chewch fuddsoddi mwy na £4,000 mewn ISA gydol oes.

Er enghraifft, os gwnaethoch fuddsoddi £5,000 mewn ISA stociau a chyfranddaliadau ar 10 Ebrill 2017 ond nid ydych chi wedi buddsoddi mewn ISA arian parod yn y flwyddyn dreth hon hyd yn hyn, gallwch yn awr fuddsoddi hyd at £15,000 mewn ISA arian parod.

Neu, gallwch fuddsoddi rhan o'r £15,000 mewn ISA arian parod a'r gweddill yn eich ISA stociau a chyfranddaliadau a/neu ISA cyllid arloesi a/neu ISA gydol oes presennol, ar yr amod nad ydych chi'n buddsoddi dros £4,000 mewn ISA gydol oes.

A ydych chi wedi buddsoddi mewn blynyddoedd treth cynt?

Ar yr amod nad ydych chi wedi ychwanegu at eich ISA arian parod presennol er 6 Ebrill 2017, gallwch agor ISA arian parod newydd gydag unrhyw ddarparwr yn y flwyddyn dreth hon – gan gynnwys NS&I

Trosglwyddo ISA

Gallwch drosglwyddo unrhyw fath o ISA i ISA arall gyda darparwr gwahanol, os yw'r darparwr yn derbyn trosglwyddiadau.

Er enghraifft, gallwch drosglwyddo:

- **ISA arian parod i:** ISA arian parod arall neu ISA stociau a chyfranddaliadau neu ISA cyllid arloesi neu ISA gydol oes
- **ISA stociau a chyfranddaliadau i:** ISA stociau a chyfranddaliadau arall neu ISA arian parod neu ISA cyllid arloesi neu ISA gydol oes
- **ISA cyllid arloesi i:** ISA cyllid arloesi arall neu ISA stociau a chyfranddaliadau neu ISA arian parod neu ISA gydol oes

Ond cofiwch, os byddwch yn trosglwyddo arian o ISA gydol oes i fath arall o ISA, ystyrir eich bod wedi tynnu arian o'r ISA gydol oes, a bydd taliad tynnu arian sy'n werth 25% o'r swm sy'n cael ei dynnu allan yn cael ei godi arnoch.

Sut ydych chi'n drosglwyddo ISA?

I drosglwyddo ISA, cysylltwch â'r darparwr newydd o'ch dewis a bydd yn gwneud y trefniadau ar eich rhan.

Peidiwch â thynnu'r arian allan eich hun neu byddwch yn colli'r buddion di-dreth.

A allaf i drosglwyddo i ISA Uniongyrchol NS&I?

Nid ydym yn derbyn trosglwyddiadau i'n ISA Uniongyrchol o ddarparwyr eraill ar hyn o bryd.

Beth yw ystyr di-dreth?

Mae 'di-dreth' yn golygu nad oes Treth Incwm y DU i'w thalu ar y llog rydych chi'n ei ennill ar eich ISA.

Hynny yw, cewch gadw'r holl log i chi'ch hun.

A fydd yr ISA bob er yn ddi-dreth?

Mae'r llywodraeth wedi addo cadw cyfrifon ISA am gyfnod amhenodol. Mae'r buddion treth a gewch o ISA yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol a gallent newid yn y dyfodol.

Lwfans Cynilo Personol

Ar 6 Ebrill 2016, cyflwynodd y llywodraeth Lwfans Cynilo Personol di-dreth newydd. Bellach, gall pobl sy'n talu'r gyfradd dreth sylfaenol ennill hyd at £1,000 o log ar eu cynilion ym mhob blwyddyn dreth (neu £500 yn achos pobl sy'n talu'r gyfradd uwch), heb dalu treth. Mae hyn ar wahân yn llwyr i'r lwfans ISA blynyddol.

Bydd y llog a enillwch ar y rhan fwyaf o gyfrifon cynilo yn cyfrif tuag at eich Lwfans Cynilo Personol. Ond nid yw'r llog a enillwch ar eich ISA yn drethadwy o gwbl, felly ni fydd yn defnyddio ceiniog o'ch Lwfans Cynilo Personol.

Dyma rai enghreifftiau:

Enghraifft 1 – John

Ar ddechrau'r flwyddyn dreth hon, mae gan John, sy'n talu'r gyfradd dreth uwch, £25,000 mewn cyfrif cynilo cyffredin sy'n talu 2% o log ac nid oes ganddo unrhyw gynilion trethadwy eraill.

Bydd John yn ennill £500 o log ar y cyfrif hwn yn y flwyddyn dreth hon.

- Bydd hyn yn defnyddio ei holl Lwfans Cynilo Personol.
- Os bydd John yn talu mwy o arian i'r cyfrif hwnnw yn y flwyddyn dreth hon, bydd yn rhaid iddo dalu treth ar y llog ychwanegol.

Yn hytrach:

Gall John roi hyd at £20,000 mewn ISA arian parod yn y flwyddyn dreth hon heb dalu unrhyw log arno.

Enghraifft 2 – Jenny

Ar ddechrau'r flwyddyn dreth hon, mae gan Jenny, sy'n talu'r gyfradd dreth sylfaenol, £60,000 mewn cyfrif cynilo cyffredin sy'n talu 2% o log ac nid oes ganddi unrhyw gynilion trethadwy eraill.

Bydd Jenny'n ennill £1,200 o log ar y cyfrif hwn yn y flwyddyn dreth hon.

- Mae hyn £200 yn fwy na'i Lwfans Cynilo Personol.
- Bydd yn rhaid i Jenny dalu treth ar £200 o log os bydd hi'n cadw'r holl arian yn y cyfrif hwnnw.

Yn hytrach:

Ar ddechrau'r flwyddyn dreth hon, gallai Jenny symud £10,000 o'r cyfrif cynilo cyffredin a'i roi mewn ISA arian parod, yna ni fyddai'n rhaid iddi dalu treth ar geiniog o'i llog. Bydd y llog mae hi'n ei ennill ar ei chyfrif cynilo cyffredin yn ystod y flwyddyn dreth hon yn gostwng i £1,000, sef ei Lwfans Cynilo Personol, a bydd y llog ar y £10,000 yn ei ISA arian parod yn ddi-dreth.

Gallwch agor a rheoli ISA Uniongyrchol NS&I ar-lein a thros y ffôn yn unig.

Mae'n syml a chyflym talu arian i mewn neu ei dynnu allan, gwirio'ch balans, adolygu'ch trafodion diweddar neu newid eich manylion personol pryd bynnag y mynnwch.

At hynny, oherwydd bod NS&I yn cael ei warantu gan Drysorlys EM, gallwch fod yn siwr bod eich cynilion yn gwbl ddiogel.

Pwy all fuddsoddi?

Unrhyw un sy'n 16 oed neu'n hyn ac sy'n preswyllo yn y DU at ddibenion treth.

Faint gallaf i ei fuddsoddi?

Gallwch agor cyfrif gydag unrhyw swm o £1 i uchafswm o £20,000 yn ystod y flwyddyn dreth hon.

Rheoli eich cyfrif

Tair ffordd o dalu arian i mewn

Pan fydd eich cyfrif wedi'i agor, gallwch dalu rhagor o arian i mewn:

- **Trwy archeb sefydlog**
Trefnwch archeb sefydlog o'ch cyfrif banc yn y DU.
- **Trwy drosglwyddiad electronig**
Gwnewch drosglwyddiad electronig o'ch cyfrif banc yn y DU.
- **Trwy fynd ar-lein neu ein ffonio ni ar unrhyw adeg**
Bydd angen manylion eich cerdyn debyd arnoch, ynghyd â'ch rhif NS&I a'ch cyfrinair.

Ewch i [nsandi.com](https://www.nsandi.com) neu ffoniwch ni i gael rhagor o fanylion am sut i dalu i mewn drwy archeb sefydlog a throsglwyddiad electronig.

Tynnu arian allan

Mae tynnu arian allan o'ch cyfrif yr un mor syml. Gallwch naill ai fynd ar-lein neu ein ffonio ni a byddwn yn trosglwyddo'r arian i'ch cyfrif banc enwebedig.

Os byddwch eisiau trosglwyddo'r arian i ISA arian parod arall, peidiwch â thynnu'r arian allan eich hun oherwydd byddwch yn colli'r buddion di-dreth. Yn hytrach, cysylltwch â'r darparwr newydd o'ch dewis a byddant yn ei drefnu i chi.

Hefyd, nid yw ein ISA Uniongyrchol yn ISA hyblyg, felly bydd yr holl arian rydych chi'n ei dalu i mewn yn ystod y flwyddyn dreth yn cyfrif tuag at eich lwfans, p'un a fyddwch chi'n tynnu arian allan ai peidio. Os byddwch yn cyrraedd yr uchafswm y gellir ei dalu i mewn ac yna'n tynnu arian allan, ni fyddwch wedyn yn gallu talu'r swm a dynnwyd allan yn ôl i mewn yn ystod yr un flwyddyn dreth.

Cadw golwg ar eich arian

Gallwch wirio balans eich ISA Uniongyrchol ac unrhyw drafodion ar ein gwefan ar unrhyw adeg, mewn modd cyfleus, syml a chwbl ddiogel. Hefyd, gallwch ein ffonio ni ar unrhyw adeg.

Unwaith y flwyddyn, byddwn yn anfon cyfriflen electronig atoch. Bydd hyn yn rhoi cofnod i chi o'r holl daliadau i mewn ac allan o'ch cyfrif, ynghyd â manylion y llog mae eich arian wedi'i ennill.

Gallwch gael eich cyfriflen drwy'r post, os yw hynny'n well gennych. Rhowch wybod i ni pan fyddwch yn gwneud cais. Hefyd, gallwch newid eich dewisiadau ar unrhyw adeg yn [nsandi.com](https://www.nsandi.com) neu drwy ein ffonio ni.

Mae eich diogelwch ar-lein yn flaenoriaeth bwysig i ni

Rydym yn defnyddio'r dulliau diogelwch diweddaraf ar wefan NS&I a chaiff eich gwybodaeth bersonol ei chadw ar system gwbl ddiogel. Ac ni fyddwn byth yn rhannu'ch gwybodaeth gyda thrydydd parti at ddibenion marchnata.

Yn barod i wneud cais?

Cyn i chi wneud cais, darllenwch y **crynodeb** a'r **telerau ac amodau**.

[nsandi.com/direct-isa-summary](https://www.nsandi.com/direct-isa-summary)

Gwnewch gais ar-lein
[nsandi.com](https://www.nsandi.com)

Gwnewch gais dros y ffôn
08085 007 007

Gallwch ein ffonio ni ar unrhyw adeg. Rydym ni yma yn y Deyrnas Unedig drwy'r dydd, bob dydd.

Mae galwadau o'r DU am ddim.

Gallem recordio eich galwad i'n helpu i roi'r gwasanaeth gorau i chi.

Sicrhewch fod y canlynol wrth law:

- Cerdyn debyd yn eich enw chi, a roddwyd gan fanc neu gymdeithas adeiladu yn y DU
- Eich rhif Yswiriant Gwladol. Fel arfer, mae hwn ar eich slip cyflog, datganiad treth (P60) neu ffurflen dreth flynyddol. Neu gallwch gysylltu â'ch swyddfa Cyllid a Thollau EM leol.
- Eich rhif NS&I a'ch cyfrinair os ydych eisoes wedi cofrestru ar gyfer ein gwasanaeth ffôn ac ar-lein.

Ar ôl i chi wneud cais

Mae ychydig bethau y mae angen i ni eu gwneud cyn i ni dderbyn eich cais ac agor eich cyfrif. Gall hyn gymryd peth amser os bydd arnom angen rhagor o wybodaeth oddi wrthyh.

Penderfyniadau lu...

Dyma beth fydd yn digwydd nesaf:

1. Byddwn yn cadarnhau pwy ydych chi a'ch cyfeiriad os nad ydym wedi gwneud hynny eisoes. Rydym yn gwneud hyn yn electronig fel arfer, ond gallem ofyn i chi anfon rhai dogfennau atom hefyd.
2. Gallem anfon ffurflen gadarnhau atoch i'w llofnodi a'i dychwelyd.
3. Pan fyddwn wedi cael eich ffurflen gadarnhau ac unrhyw ddogfennau y gofynnem amdanynt, byddwn yn anfon e-bost atoch i gadarnhau eich cyfrif, neu lythyr os nad ydych chi wedi dewis yr opsiwn di-bapur.
4. Hefyd, byddwn yn anfon cadarnhad o'ch rhif NS&I a chyfrinair dros dro atoch os nad ydych chi eisoes wedi dewis e-bost atoch i gadarnhau eich cyfrinair. Yna, gallwch ddechrau defnyddio ein gwasanaeth ffôn ac ar-lein.

Wrth reswm, ni fydd pob un o'r camau hyn yn berthnasol i chi os ydych chi eisoes yn gwsmer ac wedi cofrestru ar gyfer ein gwasanaeth ffôn ac ar-lein.

Bydd y wybodaeth isod yn eich helpu i benderfynu ai ISA Uniongyrchol NS&I yw'r cyfrif iawn i chi.

Mae'n addas i chi:

- Os ydych chi eisio enill llog di-dreth
- Os ydych chi hapus i reoli'ch cyfrif ar-lein neu dros y ffôn
- Os nad ydych chi eisoes wedi buddsoddi mewn ISA arian parod ym mlwyddyn dreth 2017/18

Nid yw'n addas i chi:

- Os ydych chi eisio buddsoddi'ch lwfans llawn mewn ISA stociau a chyfranddaliadau a/neu ISA cyllid arloesi
- Os ydych chi eisio gallu rheoli'ch cyfrif mewn cangen neu drwy'r post
- Os ydych chi eisoes wedi buddsoddi neu'n bwriadu buddsoddi mewn ISA arian parod arall yn y flwyddyn dreth hon
- Os ydych chi eisio trosglwyddo buddsoddiadau ISA o ddarparwr arall
- Os ydych chi eisio ISA hyblyg

Telerau ac amodau: 13 Ionawr 2018

Disgrifiad

1. Mae'r telerau ac amodau hyn yn berthnasol i Gyfrif Cynilo Unigol Uniongyrchol NS&I, ac maent wedi'u llunio yn unol ag adran 9A Deddf y Banc Cynilion Cenedlaethol 1971. Maent yn esbonio ein hymrwymadau i chi fel cwsmer a'ch ymrwymadau chi i ni. Darllenwch y telerau ac amodau hyn yn ofalus a'u cadw er mwyn cyfeirio atynt.
2. Mae taliadau arian i'r Cyfrif yn fuddsoddiadau yn y Banc Cynilion Cenedlaethol ac yn amodol ar Ddeddf y Banc Cynilion Cenedlaethol 1971 a Rheoliadau Cynilion Cenedlaethol 2015, fel y'u diwygir neu y'u haildeddfir o bryd i'w gilydd. Os oes gwahaniaeth rhwng y telerau ac amodau hyn a'r ddeddfwriaeth, y ddeddfwriaeth fydd drechaf.
3. Mae'r Cyfrif yn gyfrif cynilo unigol ("ISA") at ddibenion Rheoliadau Cyfrifon Cynilo Unigol 1998 ("y Rheoliadau ISA") (ac yn ddarostyngedig iddynt). Os oes gwahaniaeth rhwng y telerau ac amodau hyn a'r ddeddfwriaeth, y ddeddfwriaeth fydd drechaf. O dan y Rheoliadau ISA, mae'n rhaid i ISA aros yn eiddo buddiol i ddeiliad y cyfrif ac ni ellir ei ddefnyddio fel sicrwydd ar gyfer benthyciad.
4. Bydd NS&I yn hysbysu deiliad y Cyfrif os, o ganlyniad i unrhyw fethiant i fodloni darpariaethau'r Rheoliadau ISA, bydd y Cyfrif yn mynd yn ddi-rym, neu os bydd wedi mynd yn ddi-rym.
5. Pan fyddwn yn dirprwyo, i drydydd parti, unrhyw un o'n swyddogaethau neu gyfrifoldebau at ddeiliad y Cyfrif o dan y telerau ac amodau hyn, byddwn yn bodloni ein hunain bod unrhyw ddarparwr swyddogaethau o'r fath yn gymwys i ymgymryd â nhw.

Diffiniadau

6. Yn y telerau ac amodau hyn:
 - (a) ystyr "Cyfrif" yw Cyfrif Cynilo Unigol Uniongyrchol NS&I;
 - (b) ystyr "diwrnod bancio" yw diwrnod (heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul neu wyl banc neu wyl gyhoeddus) pan fydd banciau yn gyffredinol ar agor i fusnes yn Llundain, ac, o safbwynt prosesu taliad, unrhyw fan arall sy'n eu derbyn;
 - (c) ystyr "Cyfarwyddwr" yw'r Cyfarwyddwr Cynilion;
 - (ch) ystyr "Cyfrif Lwfans wedi'i Etifeddu" yw ISA Uniongyrchol NS&I a sefydlwyd yn benodol i dderbyn buddsoddiadau fel rhan o lwfans sydd wedi'i etifeddu oddi wrth briod neu bartner sifil sydd wedi marw (gweler paragraffau 99 i 101);
 - (d) ystyr "ISA" yw cyfrif cynilo unigol yn unol ag ystyr y Rheoliadau ISA;
 - (dd) ystyr "Rheoliadau ISA" yw Rheoliadau Cyfrif Cynilo Unigol 1998;
 - (e) ystyr "NS&I" yw National Savings and Investments;
 - (f) ystyr "Gwasanaeth" yw'r gwasanaethau ffôn ac ar-lein a

ddarperir gan NS&I at ddibenion gweithredu'r Cyfrif fel y disgrifir ym mharagraff 65;

- (ff) ystyr "blwyddyn dreth" yw cyfnod o 12 mis rhwng 6 Ebrill a 5 Ebrill.

7. Mae NS&I yn adran o'r llywodraeth ac yn asiantaeth weithredol Canghellor y Trysorlys. Rydym yn darparu cyllid i'r llywodraeth trwy gynnig cyfrifon cynilo i gwsmeriaid personol. Rydym yn gweithredu o dan awdurdod y Cyfarwyddwr Cynilion – rôl a grëwyd yn ôl y gyfraith i gynnal ein busnes. Pan ddywedwn 'ni' ac 'ein', rydym yn golygu NS&I sy'n gweithredu o dan awdurdod y Cyfarwyddwr.

Llog

8. Bydd pob taliad i mewn a dderbynnir (gweler paragraff 26) yn ennill llog ar gyfradd amrywiol. Mae'n bosibl y bydd y gyfradd sy'n gymwys i Gyfrif penodol ar gyfnod penodol yn dibynnu ar y balans yn y Cyfrif hwnnw. Gellir newid y cyfraddau, a'r balansau sy'n ofynnol i'w hennill, os yw'n gymwys, o bryd i'w gilydd yn unol â'r adran hon.

9. Bydd y cyfradd(au) presennol a'r balansau sy'n ofynnol i'w hennill, os yw'n gymwys, ar gael:

- ar wefan NS&I;
- yn ein taflen Cyfraddau Llog sydd ar gael gennym ni;
- yn Gazettes Llundain, Caeredin a Belfast (y Gazettes); ac
- yn uniongyrchol gan NS&I dros y ffôn.

10. Gallai'r Trysorlys ddewis newid y cyfradd(au) llog sy'n gymwys i'r Cyfrif o bryd i'w gilydd am resymau amrywiol, gan gynnwys:

- (a) i'n galluogi i ymateb yn gymesur i newid yng nghyfradd sylfaenol Banc Lloegr neu gyfradd farchnad arall a restrir yn gyhoeddus;
- (b) i'n galluogi i ymateb yn gymesur i newidiadau yn y cyfraddau llog a delir neu a godir gan fanciau a sefydliadau ariannol eraill;
- (c) i adlewyrchu newidiadau yng ngofynion cyllid y Llywodraeth;
- (ch) i adlewyrchu newidiadau yn y costau a ysgwyddir gennym yn rhesymol wrth ddarparu eich Cyfrif;
- (d) i adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith neu benderfyniad gan ombwdsmon;
- (dd) i'n galluogi i fodloni gofynion rheoleiddiol sydd wedi'u newid; neu
- (e) i adlewyrchu newidiadau i unrhyw godau ymarfer rydym yn eu dilyn.

11. Byddwn yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'r gyfradd/cyfraddau llog sy'n gymwys i'ch Cyfrif a/neu'r balansau sy'n ofynnol i'w hennill yn unol â'r paragraff hwn. Byddwn yn rhoi gwybod o flaen llaw am y newid(iadau) trwy gyhoeddi hysbysebion mewn

amrywiaeth o bapurau newydd a thrwy ddiweddarau ein gwefan cyn i'r newid gael ei gymhwyso i'ch Cyfrif. Os bydd y newid o fantais i chi, ni fyddwn yn rhoi gwybod i chi'n bersonol. Fodd bynnag, os bydd y newid yn anfanateisio i chi, byddwn yn rhoi gwybod i chi'n bersonol o leiaf ddeufis cyn iddo ddod i rym a gallwch gau'ch Cyfrif ar unrhyw adeg heb orfod talu taliad cosb cyn iddo ddod i rym os nad ydych yn cytuno ag ef. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni cyn i'r newid anfanateisio ddod i rym, byddwn yn ystyried eich bod wedi ei dderbyn.

12. Yn amodol ar leiafswm o £1 fel balans y Cyfrif, enillir llog yn ddyddiol ar falans terfynol bob dydd. Bydd balans terfynol bob dydd yn cynnwys yr holl daliadau i mewn a wnaed y diwrnod hwnnw (gweler paragraff 27 a pharagraffau 45 i 47 yn gynwysedig), llai unrhyw arian a dynnwyd y diwrnod hwnnw (gweler paragraffau 52 i 53). Enillir llog bob dydd ar 1/365fed o'r gyfradd llog flynyddol ar gyfer pob diwrnod.

13. Caiff llog ei gredydu'n flynyddol ar ôl cau busnes ar 5 Ebrill neu'r diwrnod bancio canlynol a bydd yn cynnwys yr holl log a enillwyd hyd at ac yn cynnwys 5 Ebrill. Wedyn bydd y llog yn ffurfio rhan o'r balans yn y Cyfrif ar y diwrnod canlynol ac o'r diwrnod hwnnw (6 Ebrill).

Treth

14. Yn unol â'r Rheoliadau ISA, mae llog yn rhydd rhag Treth Incwm y DU. Nid yw Treth Enillion Cyfalaf yn gymwys. Mae'r cyfrif yn peidio â bod yn gymwys ar gyfer llog di-dreth ar farwolaeth y deiliad a bydd llog a enillir yn dilyn y dyddiad marwolaeth yn agored i'w drethu.

Pwy gaiff, ac na chaiff, agor Cyfrif

15. *Unigolion* Gall unigolion sy'n 16 oed neu'n hyn agor Cyfrif er eu budd eu hunain yn eu henw eu hunain.

16. *Atwrneiod* Gall unigolyn sy'n 16 oed neu'n hyn agor Cyfrif hefyd yn enw unigolyn arall o'r fath, sy'n 16 oed neu'n hyn, os bydd ganddo bwer atwrnai dilys.

17. *Dirprwyon* Gellir agor Cyfrif ar ran ac yn enw rhywun 16 oed neu'n hyn sydd heb y gallu, gan unigolyn sydd â hawl gyfreithiol i wneud buddsoddiadau ar ei ran.

18. *Methdalwyr* Ni chaiff unigolyn sy'n fethdalwr nas rhyddhawyd agor Cyfrif.

19. Gall Cyfrif gael ei agor gan, neu ar gyfer, unigolyn sy'n preswyllo yn y DU at ddibenion treth yn unig (oni bai ei fod yn Gyfrif Lwfans wedi'i Etifeddu).

20. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd beidio â thanysgrifio i ISA arian parod arall (yn ôl ystyr y Rheoliadau ISA) yn yr un flwyddyn dreth (oni bai ei fod yn ISA a sefydlwyd yn benodol i dderbyn taliadau i mewn fel rhan o lwfans sydd wedi'i etifeddu oddi wrth briod neu bartner sifil sydd wedi marw).

Sut i agor Cyfrif

21. Yn amodol ar baragraffau 22 a 107, gellir gwneud cais i agor Cyfrif:

(a) dros y rhyngrwyd;

(b) dros y ffôn; neu

(c) yn achos atwrneiod a dirprwyon, neu ar gyfer Cyfrif Lwfans wedi'i Etifeddu, drwy'r post.

22. Dylai ceisiadau a wneir gan unigolion ar eu rhan eu hunain gael eu gwneud dros y rhyngrwyd a thros y ffôn. Gall ceisiadau a wneir gan atwrneiod a dirprwyon, neu geisiadau am Gyfrif Lwfans wedi'i Etifeddu, gael eu gwneud drwy'r post yn unig.

23. Mae'n rhaid defnyddio cerdyn debyd personol yn enw darpar ddeiliad y Cyfrif, a roddwyd gan fanc neu gymdeithas adeiladu yn y DU, ar gyfer y taliad cychwynnol yn achos ceisiadau dros y rhyngrwyd a thros y ffôn.

24. Pan fydd rhywun yn gwneud cais, a hwnnw yw ei gais cyntaf, mae'n bosibl y gofynnwn iddo ddarparu ei lofnod. Os felly, byddwn yn ysgrifennu at yr ymgeisydd gan nodi o fewn pa gyfnod y bydd angen ei lofnod arnom ni. Os na fyddwn yn cael y lofnod o fewn y cyfnod penodedig, ni allwn brosesu'r cais. Os felly, ad-delir unrhyw arian a dalwyd i ni i'r cerdyn debyd perthnasol neu drwy roi gwarant wedi'i chroesi (fel siec). Fodd bynnag, rydym yn cadw'r hawl i ddefnyddio dull arall o dalu os bydd angen. Nid enillir ac ni thelir unrhyw log yn ystod y cyfnod cyfamserol.

25. Oherwydd mai dim ond trwy drosglwyddiad electronig i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu personol yn y DU yn enw deiliad y Cyfrif y gellir gwneud taliadau yn dilyn tynnu arian allan neu gau'r Cyfrif, mae'n rhaid i'r ymgeisydd feddu ar gyfrif sy'n gallu derbyn taliadau trwy'r dull hwn cyn y gall agor Cyfrif gyda ni.

26. Ym mhob achos, mae cais i agor Cyfrif yn ddarostyngedig i gael ei dderbyn gennym ni.

27. Pan gaiff cais i agor Cyfrif ei dderbyn, dyddiad agor y Cyfrif a'r taliad cyntaf fydd y dyddiad y derbyniwyd y cais cyflawn i brynu gennym. At y dibenion hyn, ni fydd cais i brynu gan ddefnyddio cerdyn debyd i dalu yn cael ei ystyried yn gyflawn tan ein bod wedi derbyn awdurdod am daliad gan gwmni'r cerdyn debyd (er y gall dyddiad y taliad cyntaf fod yn wahanol yn achos Cyfrifon Lwfans wedi'i Etifeddu – gweler paragraff 100).

28. Ar ôl i gais gael ei dderbyn, bydd deiliad y Cyfrif yn derbyn cadarnhad yn dangos manylion y taliad cychwynnol a dyddiad agor y Cyfrif. Dyddiad agor eich Cyfrif fydd y dyddiad y mae'ch cytundeb gyda ni'n dechrau, a bydd yn parhau hyd nes y caiff ei derfynu gennych chi neu gennym ni yn unol â'r telerau a'r amodau hyn.

Tystiolaeth o bwy ydych chi

29. Mae'n ofynnol i ni wirio enw a chyfeiriad ein cwsmeriaid cyn y gallwn dderbyn cais i fuddsoddi. Er mwyn gwneud hyn, mae'n bosibl y gwnawn wiriadau electronig trwy ddefnyddio asiantaeth gwirio credyd. Pan fyddwch yn gwneud cais i fuddsoddi gyda ni, rydych yn cadarnhau eich bod chi, ac unrhyw un arall a enwir ar y cais, yn ymwybodol y byddwn yn gwirio pwy ydych chi a hwy a'ch cyfeiriadau.

30. Wrth wneud cais i fuddsoddi, neu ar unrhyw adeg, efallai y byddwn hefyd yn gofyn am dystiolaeth ddogfennol o bwy ydych, eich cyfeiriad a/neu ffynhonnell eich arian. Bydd ein cais yn nodi o fewn pa gyfnod y bydd angen i chi anfon y dogfennau atom. Os na fyddwn yn cael eich dogfennau o fewn y cyfnod penodedig, ni allwn brosesu'ch cais. Ni fyddwn yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddogfennau a gollir yn y post, neu yr effeithir ar eu derbyn gan oedi. Ni dderbynnir prawf o bostio fel prawf o dderbyn.

31. Os na allwn dderbyn eich cais yn yr amgylchiadau hyn (paragraffau 29 a 30), byddwn yn ei ganslo ac yn ad-dalu'r arian i'ch cerdyn debyd neu drwy roi gwarant wedi'i chroesi (fel siec). Fodd bynnag, rydym yn cadw'r hawl i ddefnyddio dull arall o dalu os bydd angen. Nid enillir ac ni thelir unrhyw log yn ystod y cyfnod cyfamserol.

Cyfnod ailfeddwl

32. Os na fydd ymgeisydd yn fodlon ar ei ddewis Cyfrif, bydd ganddo 14 diwrnod o'r dyddiad y mae'n derbyn cadarnhad y cafodd ei Gyfrif ei agor, er mwyn canslo ei Gyfrif. Er mwyn canslo'r Cyfrif, mae'n rhaid i'r ymgeisydd roi gwybod i ni yn ysgrifenedig (drwy'r post neu drwy'r e-bost) neu dros y ffôn, gan ddefnyddio'r manylion ar ddiwedd y telerau ac amodau hyn.

33. Os bydd ymgeisydd yn canslo ei Gyfrif, byddwn yn dychwelyd yr holl arian ac unrhyw log y mae wedi ei ennill. Os na fydd ymgeisydd yn canslo ei Gyfrif, bydd y telerau ac amodau hyn yn gymwys tan y caiff y Cyfrif ei gau. Os bydd yr ymgeisydd yn canslo o fewn y cyfnod ailfeddwl, gall agor ISA cyfrif arian parod arall o fewn yr un flwyddyn dreth.

Taliadau i mewn a therfynau

34. Gweler paragraff 23 i gael gwybod sut i wneud taliad cychwynnol i mewn ar gyfer ceisiadau a wneir trwy'r rhyngwrwyd a thros y ffôn. Gellir gwneud taliad dilynol i mewn drwy gerdyn debyd neu drosglwyddiad electronig. Mae'n rhaid i daliadau drwy gerdyn debyd neu drosglwyddiad electronig fod mewn punnoedd Prydeinig (£), wedi'u tynnu ar gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu personol yn y DU yn enw deiliad y Cyfrif.

35. Lleiafswm y taliad i mewn agoriadol yw £1.

36. Lleiafswm y taliad i mewn dilynol yw £1.

37. Terfyn uchaf y tanysgrifiad blynyddol yw £20,000 ar gyfer y flwyddyn dreth sy'n dechrau ar 6 Ebrill 2017, ac ar gyfer pob blwyddyn dreth ddilynol tan yr hysbysir yn wahanol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd taliadau i mewn yn ddarostyngedig i derfynau

neu gyfyngiadau ar drafodion a orfodir gan eich darparwr gwasanaethau bancio chi neu ein darparwr gwasanaethau bancio ni.

38. Nid yw'r Cyfrif yn 'ISA Hyblyg'. Bydd unrhyw daliad i mewn, heblaw am daliadau i Gyfrif Lwfans wedi'i Etifeddu, yn cyfrif tuag at derfyn uchaf tanysgrifiad blynyddol deiliad y Cyfrif ar gyfer y flwyddyn dreth berthnasol hyd yn oed os bydd wedyn yn tynnu arian allan. Gellir ond ailfuddsoddi symiau a dynnwyd allan os na fyddai gwneud hynny'n arwain at fynd heibio i derfyn uchaf y tanysgrifiad blynyddol.

39. Gallwn dderbyn taliadau i mewn i Gyfrif hyd at derfyn uchaf y tanysgrifiad blynyddol yn ystod y flwyddyn dreth gyfredol. Ein bwriad yw derbyn taliadau i mewn yn ystod blynyddoedd treth dilynol, ond rydym yn cadw'r hawl i roi'r gorau i dderbyn taliadau o'r fath mewn blynyddoedd treth yn y dyfodol. Yn yr achos hwn, byddwn yn rhoi gwybod i ddeiliad y Cyfrif yn ysgrifenedig.

40. Yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau ISA, os na fydd deiliad Cyfrif yn tanysgrifio i'w Gyfrif am flwyddyn dreth gyfan neu fwy, byddwn yn anfon ffurflen ddatgan newydd ato y bydd angen iddo ei llofnodi a'i dychwelyd o fewn 30 niwrnod cyn y gellir ychwanegu unrhyw danysgrifiadau eraill. Os na fyddwn yn derbyn y datganiad wedi'i lofnodi o fewn 30 niwrnod, byddwn yn ad-dalu'r tanysgrifiad a barodd i'r ffurflen ddatgan newydd gael ei dosbarthu. Nid enillir ac ni thelir unrhyw log ar y tanysgrifiad hwnnw yn ystod y cyfnod cyfamserol.

41. Os cyrhaeddir terfyn uchaf y tanysgrifiad blynyddol, ni cheir gwneud unrhyw daliadau pellach i mewn, ond caiff llog ei ychwanegu bob blwyddyn o hyd.

42. Os byddai taliad i mewn i Gyfrif yn arwain at fynd yn uwch na therfyn uchaf y tanysgrifiad blynyddol, byddwn yn dychwelyd cyfanswm llawn y taliad hwnnw i mewn drwy drosglwyddiad electronig i'r cyfrif y deilliodd y taliad i mewn ohono, neu drwy ddsbarthu gwarant wedi'i chroesi (sy'n debyg i siec).

43. Mae'n rhaid i ddeiliad Cyfrif roi gwybod i NS&I os bydd yn rhoi'r gorau i fyw yn y DU at ddibenion treth. Ni ellir gwneud rhagor o daliadau i mewn i'r Cyfrif, oni bai ei fod yn Gyfrif Lwfans wedi'i Etifeddu, tan i ddeiliad y Cyfrif fodloni'r cymhwyster preswyllo eto.

44. Pan fydd deiliad Cyfrif yn rhoi gwybod i NS&I nad yw'n byw yn y DU mwyach at ddibenion treth, caiff unrhyw daliadau a wnaed i'r Cyfrif ers dechrau'r flwyddyn dreth pan fydd deiliad y Cyfrif yn rhoi'r gorau i fyw yn y DU eu had-dalu i ddeiliad y Cyfrif, ynghyd ag unrhyw log a enillwyd hyd yn hyn ar y taliadau hynny i mewn, oni bai bod y cyfrif yn Gyfrif Lwfans wedi'i Etifeddu.



Taliadau i mewn i'ch Cyfrif

Taliadau i mewn gan ddefnyddio eich cerdyn debyd – dros y ffôn a'r rhyngwyd

45. At ddibenion llog, dyddiad y taliad i mewn fydd y dyddiad y derbyniwn awdurdodiad o'r taliad cerdyn debyd gan ddsbarthwr y cerdyn. Bydd cyfanswm y taliad i mewn ar gael i'w dynnu allan o'r seithfed diwrnod bancio. Er enghraifft, os derbyniwn awdurdodiad ar gerdyn debyd ar ddydd Llun, caiff y taliad ei glirio ar ddydd Mawrth yr wythnos ganlynol. Dylech ganiatáu un diwrnod ychwanegol ar gyfer pob gwyl banc neu wyl gyhoeddus yn Lloegr.

Taliadau i mewn drwy drosglwyddiad electronig

46. Gallwch gynilo'n rheolaidd drwy sefydlu archeb sefydlog gyda'ch banc neu gymdeithas adeiladu. Gallwch hefyd wneud taliadau unigol i mewn drwy drosglwyddiad electronig os bydd eich banc neu gymdeithas adeiladu yn cynnig cyfleuster o'r fath. Sylwch na ellir talu i mewn i Gyfrif Lwfans wedi'i Etifeddu drwy drosglwyddiad electronig (gweler paragraff 101). At ddibenion llog, dyddiad taliadau i mewn drwy drosglwyddiad electronig fydd y dyddiad y derbynir yr arian yng nghyfrif y Cyfarwyddwr a bydd ar gael i'w dynnu allan o'r diwrnod bancio canlynol.

Amgylchiadau eithriadol

47. O dan rai amgylchiadau lle mae'n ofynnol gan y gyfraith, neu lle mae amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth yn codi, mae'n bosibl y caiff taliad i mewn i Gyfrif ei atal, neu bydd yn cymryd hirach na'r cyfnodau amser a restrir ym mharagraffau 45 a 46.

Taliadau allan o'ch Cyfrif

48. Gallwch roi cyfarwyddiadau i ni wneud taliadau allan o'ch Cyfrif yn y ffyrdd canlynol:

- dros y rhyngwyd; a
- thros y ffôn.

Pan fyddwch yn cadarnhau eich cyfarwyddiadau, ystyriwn fod hynny'n golygu eich bod yn rhoi caniatâd i ni wneud y taliad. Ni allwch atal na newid y taliad pan fyddwch wedi cadarnhau eich cyfarwyddiadau.

49. Bydd arian ar gael i'w dynnu allan ar ôl i'ch taliad glirio yn unig. Ceir manylion am yr amser a gymerir i daliadau glirio ym mharagraffau 45 a 46.

50. Y lleiafswm y gall deiliad Cyfrif ei dynnu allan yw £1.

Taliadau drwy drosglwyddiad electronig

51. Lle y rhoddwch gyfarwyddiadau i ni wneud taliadau o dan baragraff 48, byddwn yn eu gwneud drwy drosglwyddiad electronig i gyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu personol yn y DU (neu gyfrif Cynilwr Uniongyrchol neu Gyfrif Buddsoddi NS&I) yn enw deiliad y Cyfrif. Mae'n rhaid i chi enwebu'r cyfrif hwn pan fyddwch yn gwneud cais i agor y Cyfrif, a rhoi'r cod didoli a rhif y cyfrif i ni, neu

bydd eich cais yn cael ei wrthod. Mae'n rhaid i chi wirio bod manylion eich cyfrif enwebedig yn gywir cyn eu cyflwyno i ni oherwydd byddwn yn defnyddio'r rhain i brosesu unrhyw daliad.

52. Fel arfer, byddwn yn cychwyn trosglwyddiad electronig o fewn tri diwrnod bancio o dderbyn eich cyfarwyddiadau. Os derbyniwn eich cyfarwyddiadau:

- ar ôl 7.00pm ar ddiwrnod bancio; neu
- ar ddydd Sadwrn, dydd Sul, neu wyl banc neu wyl gyhoeddus yn Llundain,

ystyriwn fod eich cyfarwyddiadau wedi cael eu derbyn gennym y diwrnod bancio nesaf. Bydd y taliad fel arfer yn cyrraedd eich cyfrif enwebedig erbyn yr ail ddiwrnod bancio ar ôl y diwrnod pan gychwynnwn y trosglwyddiad electronig

53. Efallai byddwn yn caniatáu i daliad i mewn drwy gerdyn debyd gael ei dynnu allan cyn i'r taliad glirio. Os felly, byddwn yn ad-dalu'r swm y gofynnwyd amdano i'r cerdyn debyd y gwnaed y taliad i mewn ohono. Bydd y taliad fel arfer yn cyrraedd y cyfrif sy'n gysylltiedig â'r cerdyn debyd erbyn y trydydd diwrnod bancio ar ôl y diwrnod pan gychwynnwn y trosglwyddiad electronig.

54. Lle rhoddir trosglwyddiad electronig ar waith yn gywir, ni fyddwn yn gyfrifol am unrhyw fethiant neu oedi mewn unrhyw ran o'r broses trosglwyddo electronig sydd y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol, gan gynnwys unrhyw fethiant sy'n digwydd oherwydd na all y cyfrif enwebedig dderbyn trosglwyddiad electronig.

Cau eich Cyfrif gan NS&I

55. Gallwn gau eich Cyfrif ar unwaith:

- os byddwn yn meddwl yn rhesymol bod unrhyw un o'r bobl a enwyd yn y cais i agor y Cyfrif wedi darparu gwybodaeth ffug;
- os byddwn yn amau'n rhesymol bod y Cyfrif yn cael ei ddefnyddio at ddiben anghyfreithlon;
- os nad oedd gan ddeiliad y Cyfrif, neu ymgeisydd a wnaeth gais ar ran Deiliad y Cyfrif, hawl i agor y Cyfrif;
- os bydd deiliad y Cyfrif yn methu â chydymffurfio, mewn ffordd berthnasol, â'r telerau ac amodau ar gyfer agor y Cyfrif; neu
- os oes gennym unrhyw reswm dilys arall i wneud felly.

56. Gallwn hefyd gau'r Cyfrif ar unrhyw adeg drwy roi o leiaf ddeufis o rybudd o flaen llaw i chi'n bersonol.

57. Gall deiliad y Cyfrif gau ei Gyfrif unrhyw bryd, am unrhyw reswm, heb dâl drwy roi gwybod i ni dros y ffôn. Sylwch y bydd cau'r Cyfrif hwn yn arwain at golli statws di-dreth yr arian a fuddsoddwyd yn y flwyddyn dreth bresennol ac mewn blynyddoedd treth blaenorol. Bydd trosglwyddo Cyfrif (gweler paragraff 58) yn cadw statws di-dreth y tanysgrifiadau.

Trosglwyddiadau

58. Mae'n bosibl y bydd deiliad y Cyfrif yn gallu trosglwyddo'r arian yn ei Gyfrif (yn unol â'r Rheoliadau ISA) i ISA arian parod, i ISA stociau a chyfranddaliadau, i ISA cyllid arloesi neu i ISA gydol oes gyda rheolwr ISA gwahanol drwy gysylltu â'r rheolwr ISA y mae'n dymuno trosglwyddo ei ISA iddo. Bydd y trosglwyddiad yn dibynnu ar y ffaith bod y rheolwr ISA arall yn cytuno i'r trosglwyddiad. Os na all y rheolwr ISA newydd dderbyn y trosglwyddiad bellach, fel eithriad, mae'n bosibl y byddwn y derbyn yr arian yn ôl i'r Cyfrif cyn belled â'i fod o fewn 30 niwrnod o'r arian yn cael ei drosglwyddo i'r rheolwr ISA newydd. Ni chaniateir trosglwyddiadau rhannol o danysgrifiadau'r flwyddyn gyfredol. Ni chaniateir trosglwyddiadau i Gyfrif o reolwr ISA arall.

59. Byddwn yn ymgymryd â'ch cais am drosglwyddiad o fewn y terfynau amser a nodir gan y Rheoliadau ISA, sef, ar hyn o bryd, pum niwrnod busnes o dderbyn y cais gan y rheolwr ISA newydd.

60. Mae'n bosibl y bydd deiliad y Cyfrif yn gallu trosglwyddo arian i'w Gyfrif o'i gynilion a'i fuddsoddiadau NS&I presennol. Mae'n bosibl hefyd y bydd yn gallu trosglwyddo arian o'i Gyfrif i gynilion a buddsoddiadau NS&I eraill, er y bydd yn colli statws di-dreth yr arian hwnnw o ganlyniad. Byddwn yn darparu manylion iddo pan fydd yn gofyn i ni wneud felly.

Rhoi cyfarwyddiadau i ni

61. Gellir rhoi cyfarwyddiadau:

- (a) dros y rhyngwyd; a
- (b) thros y ffôn.

62. Mae'n bosibl na fyddwn yn gweithredu cyfarwyddiadau (gan gynnwys cyfarwyddiadau i wneud taliad):

- (a) os bydd gennym reswm i gredu na roddwyd y cyfarwyddiadau gan rywun oedd â hawl i roi cyfarwyddiadau i ni;
- (b) os bydd gennym reswm i dybio bod gweithgaredd twyllodrus yn gysylltiedig â'r Cyfrif;
- (c) os bydd y cyfarwyddiadau yn aneglur, yn anghyflawn neu heb fod ar y ffurflen ofynnol;
- (ch) os bydd yn bosibl y byddwn yn torri cyfraith, rheoliad, cod neu unrhyw ddyletswydd arall sy'n berthnasol i ni os byddwn yn gweithredu'r cyfarwyddiadau;
- (d) os byddai'n golygu torri unrhyw derfynau neu amodau sy'n berthnasol i Gyfrif; neu

(dd) os bydd gennym unrhyw reswm dilys arall i wneud hynny.

63. Os byddwn yn gwrthod gweithredu cyfarwyddiadau, rhown wybod i ddeiliad y Cyfrif, ac os oes modd, rhown ein rhesymau am hynny dros y ffôn (heblaw pan fydd rhesymau cyfreithiol yn ein hatal rhag hysbysu). Gall deiliaid Cyfrif gael gwybodaeth bellach am y gwrthodiad a, lle y bo'n briodol, ein rhesymau am wrthod,

ynghyd â gwybodaeth am sut i unioni unrhyw gamgymeriad a arweiniodd at y gwrthodiad, drwy gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion ym mharagraff 115 (oni bai na allwn roi'r wybodaeth hon oherwydd ymrwymadau cyfreithiol, neu amgylchiadau penodol eraill sydd y tu hwnt i'n rheolaeth). ddiwedd y telerau ac amodau hyn (oni bai na allwn roi'r wybodaeth hon oherwydd ymrwymadau cyfreithiol, neu amgylchiadau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth).

Cyfriflenni

64. Byddwn yn anfon cyfriflen flynyddol sy'n dangos yr holl drafodion ers diwedd cyfnod y gyfriflen flynyddol flaenorol, neu, os yw'r Cyfrif wedi bod ar agor am lai na blwyddyn, ers dyddiad agor y Cyfrif. Bydd y gyfriflen flynyddol yn cynnwys manylion y llog a ychwanegwyd at y Cyfrif am y flwyddyn flaenorol yn gorffen ar 5 Ebrill. Mae deiliad y Cyfrif yn gyfrifol am wirio'r wybodaeth a ddarparwn ac mae'n rhaid iddo ddweud wrthym cyn gynted â phosibl os yw'n cynnwys unrhyw beth sy'n ymddangos yn anghywir neu os na wnaed taliad yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddwyd.

Y gwasanaeth ffôn a rhyngwyd

65. Wrth wneud cais i agor Cyfrif, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gofrestru i weithredu'r Cyfrif dros y ffôn a/neu ar y rhyngwyd. Gall fod angen i ni ofyn i'r ymgeisydd ddychwelyd dogfennau drwy'r post i gwblhau'r broses gofrestru. Gall dirprwyon ac atwrneiod gofrestru i ddefnyddio'r Gwasanaeth cyfyngedig yn unig drwy lenwi ffurflen gofrestru (sydd ar gael gennym ni ar gais) a'i dychwelyd atom drwy'r post.

66. Os bydd ymgeisydd yn cofrestru dros y rhyngwyd, gofynnir iddo roi gwybodaeth ddiogelwch a dewis cyfrinair. Os yw'r ymgeisydd yn gwsmer presennol sydd eisoes wedi cofrestru i ddefnyddio'r Gwasanaeth, mae'n rhaid iddo ddefnyddio ei wybodaeth ddiogelwch bresennol a'i gyfrinair presennol i wneud cais am y Cyfrif a'i weithredu.

67. Os bydd ymgeisydd yn cofrestru dros y ffôn, gofynnir iddo roi gwybodaeth ddiogelwch. Ar ôl cofrestru, byddwn yn anfon cyfrinair dros dro at y defnyddiwr cofrestredig. Cyn y gall y defnyddiwr cofrestredig reoli ei Gyfrif gan ddefnyddio'r Gwasanaeth, bydd angen iddo newid y cyfrinair dros dro hwn i un o'i ddewis ei hun. Bydd y cyfrinair dros dro yn dod i ben ar ôl 60 niwrnod felly bydd angen ei newid cyn hynny. Os na fydd y defnyddiwr cofrestredig yn newid ei gyfrinair dros dro cyn iddo ddod i ben, byddwn yn rhoi cyfrinair newydd iddo, y tro nesaf y bydd yn cysylltu â ni. Bydd rhaid newid y cyfrinair dros dro newydd cyn pen 60 niwrnod.

68. Byddwn yn defnyddio'r cyfrinair a'r wybodaeth ddiogelwch i gadarnhau pwy sy'n ceisio defnyddio'r Gwasanaeth. Os bydd defnyddiwr cofrestredig am newid ei wybodaeth ddiogelwch neu



ei gyfrinair am unrhyw reswm, gall wneud hynny dros y rhyngwrwyd neu drwy ein ffonio ni. Efallai y byddwn yn gofyn i unrhyw newid gael ei gadarnhau'n ysgrifenedig.

69. Mae'n rhaid i ddefnyddwyr cofrestredig:

- gymryd pob cam rhesymol i rwystro pobl heb awdurdod rhag defnyddio'r Gwasanaeth a/neu eu cyfrinair a'u gwybodaeth ddiogelwch;
- cadw eu cyfrinair a'u gwybodaeth ddiogelwch yn ddiogel;
- peidio â datgelu unrhyw wybodaeth (gan gynnwys eu cyfrinair a'u gwybodaeth ddiogelwch) a fydd yn caniatáu i unrhyw un arall ar wahân i ni gael mynediad at y Gwasanaeth;
- peidio â gadael y ddyfais y maent yn ei defnyddio i gael mynediad at y Gwasanaeth tra'u bod wedi mewngofnodi; a
- pheidio â chofnodi eu cyfrinair na'u gwybodaeth ddiogelwch mewn modd fel y gallant ddod yn hysbys i rywun arall.

70. Ni fydd unrhyw beth yn yr adran hon (gan gynnwys paragraff 69) yn eich atal rhag defnyddio darparwr gwasanaeth gwybodaeth am gyfrif (na datgelu gwybodaeth i ddarparwr gwasanaeth gwybodaeth am gyfrif pan fydd angen y wybodaeth honno arno i ddarparu ei wasanaeth). Gallen atal darparwr gwasanaeth gwybodaeth am gyfrif rhag cael mynediad i'r Cyfrif os oes gennym bryderon rhesymol y gallai fod mynediad heb awdurdod neu fynediad twyllodrus i'r Cyfrif. Byddwn yn rhoi gwybod i chi dros y ffôn cyn i ni wrthod rhoi mynediad (neu, os nad yw hynny'n bosibl, yn syth ar ôl hynny), ac yn rhoi ein rhesymau (heblaw pe byddai rhoi gwybod i chi yn anghyfreithlon neu'n peryglu ein diogelwch). Byddwn yn caniatáu i'r darparwr gwasanaeth gwybodaeth am gyfrif gael mynediad i'r Cyfrif pan na fydd y rhesymau dros y gwrthodiad yn bodoli mwyach.

71. Sylwch, ar ôl y cofrestru cychwynnol, ni fyddwn yn cysylltu â defnyddwyr cofrestredig, nac yn gofyn i unrhyw un wneud felly ar ein rhan, gyda chais i ddatgelu eu gwybodaeth ddiogelwch yn llawn. Os caiff defnyddwyr cofrestredig unrhyw gais o'r fath gan unrhyw un (hyd yn oed os ydynt yn defnyddio ein henw a logo ac yn ymddangos yn gais gwirioneddol), yna mae'n debygol mai un twyllodrus ydyw, ac ni ddylai defnyddwyr cofrestredig, o dan unrhyw amgylchiadau, roi eu gwybodaeth ddiogelwch iddynt. Dylai defnyddwyr cofrestredig roi gwybod i ni ar unwaith am unrhyw geisiadau o'r fath.

72. Sylwch fod gennym yr hawl i ddebydu'r Cyfrif lle bo cyfarwyddiadau talu wedi'u derbyn drwy gyfrwng y Gwasanaeth, os rhoddwyd manylion y wybodaeth ddiogelwch yn gywir.

73. Os bydd gennych reswm i amau bod eich gwybodaeth ddiogelwch a/neu eich cyfrinair ar gyfer y Gwasanaeth wedi cael eu colli, eu dwyn neu eu defnyddio gan rywun arall heb eich

caniatâd, dylech roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl drwy ein ffonio ar **08085 007 007**. Efallai y byddwn yn gofyn i chi gadarnhau hyn yn ysgrifenedig.

74. Er y byddwn yn gwneud ymdrechion rhesymol i ddarparu'r Gwasanaeth, ni fyddwn yn gyfrifol am unrhyw fethiant i ddarparu'r Gwasanaeth, naill ai'n rhannol neu yn ei gyfanrwydd, am unrhyw reswm sydd y tu hwnt i'n rheolaeth resymol. Mae hyn yn cynnwys, yn benodol, unrhyw waharddiad o'r Gwasanaeth o ganlyniad i waith cynnal a chadw neu uwchraddio ein systemau ni neu systemau unrhyw barti arall a ddefnyddir i ddarparu'r Gwasanaeth.

75. Efallai y byddwn yn gwahardd, yn atal neu'n cyfyngu ar y gallu i wneud taliadau trwy'r Gwasanaeth gan ddefnyddio eich cyfrinair a/neu'ch gwybodaeth ddiogelwch os ystyriwn fod hynny'n rhesymol angenrheidiol:

- am resymau diogelwch; neu
- oherwydd ein bod ni'n amau bod rhywun yn defnyddio eich cyfrinair a/neu'ch gwybodaeth ddiogelwch heb eich caniatâd neu'n dwyllodrus.

76. Byddwn bob amser yn ceisio rhoi gwybod i chi dros y ffôn cyn i ni wahardd, atal neu gyfyngu ar y gallu i wneud taliadau trwy'r Gwasanaeth gan ddefnyddio eich cyfrinair a/neu'ch gwybodaeth ddiogelwch, a'n rhesymau dros wneud hynny. Os na allwn roi gwybod i chi o flaen llaw, byddwn yn rhoi gwybod i chi yn syth ar ôl hynny. Fodd bynnag, ni fyddwn yn rhoi gwybod i chi os bydd rhesymau cyfreithiol yn ein hatal rhag gwneud hynny, neu pe byddai rhoi gwybod i chi'n peryglu ein mesurau diogelwch.

77. Byddwn yn codi unrhyw waharddiad, ataliad neu gyfyngiad ar y gallu i wneud taliadau trwy'r Gwasanaeth gan ddefnyddio eich cyfrinair a/neu'ch gwybodaeth ddiogelwch cyn gynted ag y gallwn pan na fydd y rhesymau dros y gwaharddiad, yr ataliad neu'r cyfyngiad yn bodoli mwyach. Gallwch ein ffonio ni ar **08085 007 007** i ofyn i ni godi unrhyw waharddiad, ataliad neu gyfyngiad.

Atebolrwydd

78. Os credwch fod taliad wedi cael ei wneud o'r Cyfrif nad awdurdodwyd gennych, neu os credwch nad yw taliad y gofynnoch i ni ei wneud wedi cael ei wneud yn gywir, dylech roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ym mharagraff 115.

Trafodion anawdurdodedig

79. Ac eithrio fel yr amlinellir ym mharagraffau 80 ac 81 isod, pan fyddwch yn rhoi gwybod i ni nad oedd taliad o'ch Cyfrif wedi cael ei awdurdodi gennych yn y ffordd a amlinellir ym mharagraff 48, byddwn yn:

- ad-dalu swm y taliad nas awdurdodwyd i chi cyn gynted ag y

bo'n ymarferol (ac mewn unrhyw achos dim hwyrach na diwedd y diwrnod bancio yn dilyn y diwrnod pan ddywedwch wrthym am y taliad nas awdurdodwyd); a

- lle y bo'n berthnasol, yn adfer eich Cyfrif i'r sefyllfa y byddai wedi bod ynddi pe na byddai'r taliad nas awdurdodwyd wedi cael ei wneud (gan gynnwys talu unrhyw log a gollwyd gennych).

Ni fydd gennym unrhyw atebolrwydd pellach i chi.

80. Os oes gennym sail resymol i amau ymddygiad twyllodrus gennych chi mewn perthynas â thaliad nas awdurdodwyd, byddwn yn ymchwilio i hyn cyn rhoi ad-daliad i chi o dan baragraff 79. Os byddwn yn fodlon, ar ôl cynnal ein hymchwiliad, na fu achos o dwyll, byddwn yn ad-dalu swm y taliad nas awdurdodwyd i chi. Ni fyddwn yn rhoi ad-daliad i chi os canfyddwn eich bod wedi gweithredu'n dwyllodrus.

81. Ni fyddwn yn rhoi ad-daliad i chi, nac yn atebol i chi am unrhyw golledion a gewch mewn perthynas â thaliadau nas awdurdodwyd sy'n deillio o ddefnyddio cyfrinair a/neu wybodaeth ddiogelwch a gollwyd neu a gafodd eu dwyn a ddefnyddiwyd i gael mynediad i'r Gwasanaeth:

- os ydych wedi gweithredu'n dwyllodrus;
- os ydych wedi methu â gwneud y canlynol yn fwriadol neu drwy esgeuluster difrifol:
 - (i) cydymffurfio â pharagraff 69 uchod;
 - (ii) rhoi gwybod i ni cyn gynted â phosibl ar ôl dod yn ymwybodol bod eich cyfrinair a/neu wybodaeth ddiogelwch wedi cael eu colli, eu dwyn neu eu defnyddio heb awdurdod, fel sy'n ofynnol gan baragraff 73 uchod.

82. Ni fyddwch yn atebol am unrhyw golledion a gewch mewn perthynas â thaliadau nas awdurdodwyd sy'n deillio o ddefnyddio cyfrinair a/neu wybodaeth ddiogelwch a gollwyd neu a gafodd eu dwyn a ddefnyddiwyd i gael mynediad i'r Gwasanaeth (heblaw pan fyddwch wedi gweithredu'n dwyllodrus):

- sy'n digwydd ar ôl i chi roi gwybod i ni fod eich cyfrinair a/neu'ch gwybodaeth ddiogelwch wedi cael eu colli, eu dwyn neu eu defnyddio heb awdurdod;
- os na fyddwn yn rhoi modd i chi roi gwybod i ni fod eich cyfrinair a/neu'ch gwybodaeth ddiogelwch wedi cael eu colli, eu dwyn neu eu defnyddio heb awdurdod.

Trafodion a wnaed yn anghywir

83. Os byddwch yn gofyn i ni wneud taliad ac nid ydym yn gwneud hynny, neu os byddwn yn ei wneud yn anghywir, byddwn yn ad-dalu swm y taliad i chi cyn gynted â phosibl (os debydwyd y taliad o'ch Cyfrif) ac unrhyw gostau a dalwyd gennych, ac yn talu unrhyw log i chi y byddech wedi'i ennill fel pe na byddai'r taliad wedi digwydd (heblaw os byddwch wedi rhoi'r cod didoli a'r rhif cyfrif anghywir i ni ar gyfer eich cyfrif enwebedig, neu os gallwn

ddangos bod yr arian wedi cael ei dderbyn i'ch cyfrif enwebedig).

84. Os na fyddwn yn credydu arian a dderbyniwn ar eich cyfer i'ch Cyfrif yn unol â'r adran '*Taliadau i mewn i'ch Cyfrif*' uchod, byddwn yn credydu'r swm cyfatebol yn syth i'ch Cyfrif (fel petaech wedi derbyn yr arian pan ddylech fod wedi'i dderbyn) ac yn sicrhau bod y swm perthnasol ar gael i chi ar unwaith.

85. Os bydd taliad y gofynoch i ni ei wneud wedi cael ei wneud yn anghywir, byddwn, os gofynnwch i ni wneud hynny, ar unwaith a heb gost i chi, yn gwneud ymdrech i ddod o hyd i'r taliad a wnaed yn anghywir a'ch hysbysu am y canlyniad.

86. Pan fyddwn yn gwneud trafodyn talu gan ddefnyddio'r cod didoli a'r rhif cyfrif a roddwyd gennych ar gyfer eich cyfrif enwebedig, ac mae'r cod didoli a/neu'r rhif cyfrif yn anghywir, ni fydd gennym unrhyw atebolrwydd oherwydd bod y taliad heb gael ei wneud neu wedi cael ei wneud yn anghywir. Fodd bynnag, gwnawn ymdrech resymol i adennill arian y taliad a wnaed yn anghywir. Os na allwn adennill yr arian, byddwn, ar ôl derbyn cais ysgrifenedig gennych, yn rhoi'r holl wybodaeth berthnasol sydd gennym i chi fel y gallwch gyflwyno hawliad cyfreithiol am ad-dalu'r arian (heblaw pe byddai'n anghyfreithlon i ni ddarparu'r wybodaeth hon).

87. Os telir arian i mewn i'ch Cyfrif trwy gamgymeriad, gallwn ei ddychwelyd i'r talwr. Rydych yn cytuno i roi gwybod i ni os derbyniwch unrhyw arian i'ch Cyfrif trwy gamgymeriad. Os na allwn adennill yr arian gennych, mae'n bosibl y bydd rhaid i ni roi'r holl wybodaeth berthnasol i'r talwr i'w gynorthwyo i gasglu'r arian gennych (a gallai'r cyfryw wybodaeth gynnwys eich gwybodaeth bersonol).

Bygythiadau diogelwch a thwyll

88. Byddwn yn cysylltu â chi dros y ffôn neu drwy'r post os oes amheuaeth neu dystiolaeth o fygythiadau diogelwch neu dwyll yn gysylltiedig â'ch Cyfrif.

Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth

89. Efallai y defnyddiwn unrhyw wybodaeth a roddwch i ni amdanoch eich hun ac eraill i:

- (a) reoli eich cyfrif(on) a'ch buddsoddiad(au);
- (b) cynnal archwiliadau rheoleiddiol i fodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol;
- (c) canfod ac atal trosedd a thwyll;
- (ch) rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am eich cyfrif(on) a'ch buddsoddiadau;
- (d) datblygu, profi a gwella ein cynhyrchion a'n gwasanaethau;
- (dd) cynnal ymchwil i'r farchnad a dadansoddi cynhyrchion;
- (e) cyflawni dadansoddiadau ystadegol dienw (ni fyddwn yn gallu adnabod unigolion o'r data hwn);
- (f) rhoi deunydd marchnata i chi, a allai fod wedi'i deilwra i'ch anghenion unigol, pan fydd gennym eich caniatâd i wneud hynny;



(ff) cynnal cystadlaethau, digwyddiadau a gweithgareddau hyrwyddo.

90. Rydym yn ymdrin â'r holl wybodaeth sydd gennym amdanoch yn breifat ac yn gyfrinachol. Ni fyddwn yn datgelu unrhyw fanylion personol na manylion am eich cyfrif(on) a'ch buddsoddiadau i unrhyw un nad yw'n gysylltiedig ag NS&I, oni bai:

- (a) eich bod yn gofyn i ni ddatgelu'r wybodaeth, neu'n rhoi caniatâd i ni wneud hynny;
- (b) ei bod yn ofynnol i ni wneud hynny yn unol â'r gyfraith neu fe'n caniateir gan y gyfraith i wneud hynny;
- (c) bod eu hangen ar asiantaethau gwirio credyd, atal twyll neu ofodi'r gyfraith;
- (ch) bod dyletswydd arnom i'r cyhoedd i ddatgelu'r wybodaeth, e.e. i gyrff eraill y llywodraeth, awdurdodau treth neu gyrff rheoleiddio.

91. Wrth roi gwybodaeth i ni am rywun arall, bydd angen i chi gadarnhau eich bod chi wedi'ch penodi i weithredu ar ran yr unigolyn hwnnw. Mae hyn yn cynnwys rhoi caniatâd i brosesu data'r unigolyn arall hwnnw fel y nodir yn y telerau ac amodau hyn.

92. Mae'n bosibl y byddwn yn monitro neu'n recordio galwadau ffôn at ddibenion hyfforddi, sicrhau ansawdd a dibenion busnes eraill.

93. Mae negeseuon e-bost a gwefan NS&I yn defnyddio cwcis i gasglu data dienw er mwyn gweinyddu'r wefan. Mae'n bosibl gosod meddalwedd pori ar y rhyngwyd er mwyn analluogi defnyddio cwcis. Sylwer, fodd bynnag, fod angen i ffurflenni cais a phrosesau eraill ddefnyddio cwcis i weithredu'n gywir. Mae ein polisi cwcis, gan gynnwys manylion unrhyw gwcis a ddefnyddir, i'w weld yn nsandi.com/cookies

94. O bryd i'w gilydd, efallai y byddwn yn newid y ffordd rydym yn defnyddio gwybodaeth am gwsmeriaid. Lle rydym o'r farn na fydd cwsmeriaid yn rhesymol yn disgwyl newid o'r fath, byddwn yn rhoi gwybod iddynt gan ddefnyddio'r dull o'u dewis, er enghraifft drwy'r post neu drwy'r e-bost. Os na fydd cwsmeriaid yn gwrthwynebu'r newid cyn pen 60 niwrnod o gael gwybod, byddwn yn ystyried eu bod wedi rhoi eu caniatâd i'r newid.

95. Byddwn yn dal gwybodaeth am gwsmeriaid ar bapur ac ar ein systemau TG ac yn ei chadw ar ôl i Gyfrifon gael eu had-dalu'n llawn, yn unol â'n gweithdrefnau cadw. Os hoffech gael copi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch, cyflwynwch Gais am Fynediad gan Wrthrych Data o dan y Ddeddf Diogelu Data. Ysgrifennwch at: **The Data Protection Officer, National Savings and Investments, 1 Drummond Gate, London SW1V 2QX.** Llofnodwch eich cais a nodwch eich enw llawn, eich cyfeiriad (presennol a blaenorol), pa gyfrif(on) a ddelir gennych a'r rhif(au) cyfrif. Efallai y codir tâl bach amoch am y gwasanaeth hwn – os felly, byddwn yn nodi hyn yn eglur.

96. Hoffem roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein cynhyrchion a'n gwasanaethau y credwn y gallent fod o ddiddordeb i chi. Os nad

ydych am dderbyn yr wybodaeth hon, gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio'r manylion ym mharagraff 115.

97 Mae'n bosibl y byddwn yn anfon eich data y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Fodd bynnag, byddwn yn sicrhau ei fod yn cael ei brosesu a'i drin yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 y DU.

Sut i roi gwybod i ni am newidiadau i'ch manylion personol

98. Er mwyn i ni allu rheoli a diogelu eich Cyfrif a chyfathrebu â chi'n ddiogel ac yn gyflym (er enghraifft, os byddwn yn amau twyll yn gysylltiedig â'ch Cyfrif), rhowch wybod i ni ar unwaith os bydd unrhyw un o'r canlynol yn newid:

- eich enw;
- cenedligrwydd;
- cyfeiriad (gan gynnwys os byddwch yn symud dramor);
- llofnod;
- rhif ffôn (gan gynnwys rhif ffôn symudol);
- cyfeiriad e-bost.

Dylech hefyd sicrhau bod manylion eich cyfrif banc enwebedig yn gyfredol. Os ydych wedi cofrestru i ddefnyddio'r Gwasanaeth, dylech roi gwybod i ni am newidiadau o'r fath dros y ffôn, neu ddiweddarau eich manylion ar y rhyngwyd. Fel arall, dylech ysgrifennu atom yn y cyfeiriad ym mharagraff 115.

Cyfrifon Lwfans wedi'i Etifeddu

99. allwn dderbyn ceisiadau am Gyfrif Lwfans wedi'i Etifeddu, a thaliadau iddo, yn dilyn marwolaeth priod neu bartner sifil, ar yr amod:

- (a) bod y priod neu'r partner sifil sy'n goroesi yn byw gyda'r ymadawedig ar y dyddiad marwolaeth a heb wahanu yn sgil gorchymyn llys, gweithred gwahanu neu mewn amgylchiadau lle'r oedd y gwahanu'n debygol o fod yn barhaol;
- (b) bod yr ymadawedig yn meddu ar ISA ar y dyddiad marwolaeth;
- (c) bod y dyddiad marwolaeth ar 3 Rhagfyr 2014 neu wedi hynny;
- (ch) bod yr holl daliadau i'r Cyfrif Lwfans wedi'i Etifeddu yn cael eu gwneud o fewn tair blynedd o'r dyddiad marwolaeth neu o fewn 180 niwrnod o gwblhau gweinyddu'r ystâd, pa un bynnag sydd hwyrach;
- (d) nad yw cyfanswm y tanysgrifiadau uwchlaw gwerth ISA yr ymadawedig ar y dyddiad marwolaeth.

Nid oes angen i'r priod neu'r partner sifil sy'n goroesi fod yn preswyllo yn y DU

100. I wneud cais am Gyfrif Lwfans wedi'i Etifeddu, rhaid i'r priod neu'r partner sifil sy'n goroesi:

- (a) wneud y cais cychwynnol drwy'r post, gan gynnwys datganiad wedi'i lofnodi yn cadarnhau ei hawl i agor cyfrif o'r fath;

- (b) rhoi manylion personol yr ymadawedig, gan gynnwys ei enw a'i gyfeiriad llawn, ei rif Yswiriant Gwladol a'i ddyddiad marwolaeth;
- (c) darparu unrhyw dystiolaeth ddogfennol y gallai fod arnom ei hangen, er enghraifft tystysgrif priodas.

Cyn y gallwn agor y cyfrif, bydd angen i ni gysylltu â rheolwr ISA yr ymadawedig i gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys cadarnhad o werth ISA yr ymadawedig ar y dyddiad marwolaeth ac nad yw'r priod neu'r partner sifil sy'n goroesi eisoes wedi defnyddio unrhyw swm o'r lwfans sydd wedi'i etifeddu. Gallwn dderbyn taliadau i mewn ar ôl derbyn y cais ac agor y cyfrif yn unig.

101. Bydd angen i'r priod neu'r partner sifil sy'n goroesi gyflwyno datganiad bob tro y bydd yn talu arian i mewn i Gyfrif Lwfans wedi'i Etifeddu. Am y rheswm hwn, ni allwn dderbyn taliadau drwy drosglwyddiad electronig.

Cwynion

102. Os byddwn yn gwneud camgymeriad, ceisiwn unioni pethau'n ddi-oed ac yn ddiffwdan, ac mae gennym weithdrefn i ddatrys cwynion yn effeithiol ac yn deg. Gallwch gwyno drwy ein ffonio'n rhad ac am ddim ar **0800 092 1286**, drwy fynd i nsandi.com, neu drwy ysgrifennu at y Tîm Gofal Cwsmeriaid yn y cyfeiriad ym mharagraff 115. Mae taflen sy'n disgrifio ein gweithdrefn gwyno ar gael ar gais neu gallwch ei lawrlwytho yn nsandi.com

103. Os ydych o'r farn nad ydym wedi datrys eich cwyn i'ch boddhad, mae'n bosibl gallwch ei chyfeirio at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol, sef sefydliad a ffurfiwyd yn ôl y gyfraith er mwyn rhoi gwasanaeth annibynnol ac am ddim i ddefnyddwyr i ddatrys anghydfodau. Gallwch eu ffonio ar **0800 023 4567** (mae galwadau o'r DU i'r rhif hwn yn rhad ac am ddim). Gallwch hefyd fynd i financial-ombudsman.org.uk neu ysgrifennu atynt yn **Exchange Tower, London E14 9SR**. Neu, os gwnaethoch fuddsoddi gyda ni ar-lein, gallwch gyfeirio'ch cwyn trwy'r wefan Datrys Anghydfodau Ar-lein (ODR), a sefydlwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd i helpu defnyddwyr i ddatrys anghydfodau gyda chwmnïau o fewn yr UE. Ewch i <https://webgate.ec.europa.eu/odr>

Newidiadau i'r telerau ac amodau hyn

104. Gallwn newid y telerau ac amodau hyn ar unrhyw bryd. Yn amodol ar baragraff 105, os penderfynwn wneud newid, byddwn yn rhoi gwybod i chi'n bersonol am y newid o leiaf ddeufis cyn iddo ddod i rym. Pan fyddwn yn rhoi gwybod i chi am newid, gallwch gau eich Cyfrif ar unrhyw adeg heb dâl cyn i'r newid ddod i rym os nad ydych yn cytuno ag ef. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni erbyn hynny, ystyriwn eich bod wedi derbyn y newid. Nid yw'r paragraff hwn yn berthnasol i newidiadau manteisiol i'r gyfradd/cyfraddau llog sy'n gymwys i'ch Cyfrif, a fydd yn cael eu gwneud yn unol â pharagraff 11.

105. Gallwn wneud newidiadau i'r telerau ac amodau hyn gan roi llai na deufis o rybudd os bydd angen i ni wneud hynny i gydymffurfio â chyfraith berthnasol neu reoliad perthnasol.

Cwsmeriaid sydd ag anghenion arbennig

106. Efallai na fydd rhai o'r telerau ac amodau hyn yn gymwys os ydym wedi cytuno ar newidiadau gyda deiliaid Cyfrif er mwyn gwneud eu Cyfrif yn fwy hygyrch. Os felly, cytunir ar unrhyw wahaniaethau gyda nhw yn unigol.

107. Mewn amgylchiadau cyfyngedig, efallai y byddwn yn cytuno i dderbyn ceisiadau drwy'r post i agor Cyfrif. Ar gyfer ceisiadau o'r fath a wnaed drwy'r post, yn ddarostyngedig i baragraff 26, dyddiad agor y Cyfrif a'r taliad i mewn agoriadol fydd y dyddiad y derbyniwyd y cais â'r taliad gennym. Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb am geisiadau a gollir yn y post, neu yr effeithir ar eu derbyn gan oedi. Ni dderbynnir prawf o bostio fel prawf o dderbyn.

108. Pan wneir cais drwy'r post, mae'n rhaid i'r taliad i mewn cychwynnol fod drwy siec bersonol a dynnir ar gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn y DU a ddelir gan ddeiliad arfaethedig y Cyfrif, neu drwy siec cangen cymdeithas adeiladu yn y DU neu ddrafft banc.

109. Bydd ad-daliad yn unol â pharagraff 24 neu 31 yn cael ei wneud drwy gyhoeddi gwarant neu drwy drosglwyddiad electronig i'r cyfrif y tynnwyd y siec arno. Fodd bynnag, rydym yn cadw'r hawl i ddefnyddio dull arall o dalu os bydd angen. Nid enillir ac ni thelir unrhyw log yn ystod y cyfnod cyfamserol.

110. Yn ogystal, mae'n bosibl y byddwn yn cytuno i dderbyn taliadau i mewn dilynol drwy siec. Ar gyfer taliadau i mewn dilynol a wneir drwy siec, bydd angen i ddeiliad y Cyfrif anfon cyfarwyddiadau ysgrifenedig atom, gan amgáu ei siec, gyda rhif y Cyfrif y dylid gwneud y taliad iddo wedi'i ysgrifennu ar y cefn. At ddibenion llog, dyddiad y taliad i mewn fydd y dyddiad y derbynnir y siec gennym. Bydd ar gael i'w dynnu allan o'r seithfed diwrnod bancio. Er enghraifft, os byddwn yn derbyn siec ar ddydd Llun, caiff y taliad ei glirio ar ddydd Mawrth yr wythnos ganlynol. Dylech ganiatáu un diwrnod ychwanegol ar gyfer pob gwyl banc neu wyl gyhoeddus yn Lloegr.

111. Os bydd y banc neu'r gymdeithas adeiladu y tynnwyd y siec arno/arni yn penderfynu peidio â'i thalu, fel arfer bydd yn esbonio'r rheswm dros beidio â thalu. Byddwn yn didynnu cyfanswm y siec o falans y Cyfrif heb fod yn hwyrach na diwedd y chweched diwrnod bancio ar ôl iddo gael ei ychwanegu at y balans. Ar ôl hynny, ni fyddwn yn didynnu cyfanswm y siec o'r balans oni bai bod deiliad y Cyfrif yn rhoi caniatâd i ni wneud felly neu fod deiliad y Cyfrif wedi'i ymglymu'n fwiadol mewn twyll yn ymwneud â'r siec.

112. Mewn amgylchiadau cyfyngedig, mae'n bosibl y byddwn yn derbyn cyfarwyddiadau ar gyfer talu drwy'r post. Mewn

amgylchiadau o'r fath, fel arfer byddwn yn cychwyn y trosglwyddiad electronig o fewn tri diwrnod gwaith o dderbyn cyfarwyddiadau deiliad y Cyfrif.

Rheoliadau

113. Gellir gweld y Rheoliadau (a'r Deddfau) a nodir ym mharagraff 2 yn www.legislation.gov.uk

laith

114. Mae ein cytundeb gyda chi wedi'i gwblhau yn Saesneg a byddwn yn cyfathrebu â chi mewn perthynas â'ch Cyfrif yn Saesneg.

Cysylltu â'n gilydd

115. Gallwch gysylltu â ni drwy ysgrifennu atom neu ein ffonio ni gan ddefnyddio'r manylion isod:

NS&I Direct ISA

National Savings and Investments

Glasgow

G58 1SB

Rhif ffôn **08085 007 007**

Ewch i'n gwefan nsandi.com

116. Byddwn yn cysylltu â chi drwy ysgrifennu atoch (drwy neges e-bost, llythyr neu drwy ein gwasanaeth ar-lein) neu eich ffonio gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a roddwch i ni.

Y gyfraith ac awdurdodaeth

117. Bydd y telerau ac amodau hyn, unrhyw rwymedigaethau anghytundebol sy'n deillio ohonynt ac unrhyw gytundeb a wneir ar eu sail yn cael eu rheoli a'u dehongli yn unol â chyfraith Lloegr.

118. Yn achos marwolaeth deiliad Cyfrif, mae'r Cyfarwyddwr yn cadw'r hawl i wneud unrhyw daliad sy'n gysylltiedig â'r Cyfrif yn unol â'r gyfraith lle'r oedd deiliad y Cyfrif yn preswyllo neu, os yw'n wahanol, lle'r oedd yn byw ar adeg ei farwolaeth.

119. Yn amodol ar baragraffau 120 a 121, mae llysoedd Lloegr i gael awdurdodaeth lwyr i ddatrys unrhyw anghydfod (gan gynnwys hawliadau gwrthosod a gwrth-hawliadau) a allai godi mewn cysylltiad â'r telerau ac amodau hyn (gan gynnwys mewn perthynas ag unrhyw rwymedigaethau anghytundebol) neu unrhyw gytundeb a wneir ar eu sail ac sydd, yn amodol ar y Rheoliadau, i gael ei benderfynu gan lys barn.

120. Lle bo adran 16 Deddf Awdurdodaeth Sifil a Dyfarniadau 1982 yn gymwys, y llys barn perthnasol yn y rhan berthnasol o'r Deyrnas Unedig sydd i gael awdurdodaeth i ddatrys unrhyw anghydfod o'r fath.

121. Mae paragraffau 119 a 120 yn cael eu cynnwys er ein budd ni. Yn unol â hyn, rydym yn cadw'r hawl i ddwyn achos mewn unrhyw lys arall sydd ag awdurdodaeth, neu y mae'r deiliad Cyfrif yn ymostwng yn derfynol i'w awdurdodaeth.

Cael copi

122. Byddwn yn rhoi copi i chi o'r telerau ac amodau hyn ac unrhyw wybodaeth y cyfeirir ati ynddynt ar unrhyw adeg yn ystod ein perthynas ar gais. Mae'r telerau ac amodau ar gael ar ein wefan hefyd, sef nsandi.com

National Savings and Investments

Head Office:

1 Drummond Gate

London

SW1V 2QX

13 Ionawr 2018

CADWCH HWN ER MWYN CYFEIRIO ATO

Bob amser yma i helpu

Rydym ni ar-lein
nsandi.com

Ffoniwch ni
08085 007 007

Gallwch ein ffonio ni ar unrhyw adeg. Rydym ni yma yn y Du drwy'r dydd, bob dydd.

Mae galwadau o'r DU am ddim.

Gallai eich galwad gael ei recordio i'n helpu i roi'r gwasanaeth gorau i chi.

Ysgrifennwch atom
NS&I, Glasgow G58 1SB

Anfonwch neges drydar atom
[@nsandihelp](https://twitter.com/nsandihelp)

A ydych chi'n cael trafferth darllen y daflen hon?

Gofynnwch i ni am gael fersiwn:

- Braille
- Tâp sain neu gwyno ddisg
- Print bras

A ydych chi'n defnyddio Minicom?

Gall defnyddwyr Minicom (ffôn testun) gysylltu â ni ar

0800 056 0585

NS&I 779 (2018/01) (AWEB)

Cynhyrchwd ym mis Rhagfyr 2017

Mae National Savings and Investments yn Nod Masnach y Cyfarwyddwr Cynilion

